
# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyhoeddwyd: Chwefror 2012
Cyfeirnod: 139A2012



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru bob blwyddyn gan gynnwys £15 biliwn a drosglwyddir i Gymru bob blwyddyn trwy bleidlais gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron i £5.5 biliwn o'r arian hwn i lywodraeth leol, trwy gyfrwng grantiau cyffredinol a phenodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall trwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gofalu bod arian cyhoeddus yn cyfrif, trwy hyrwyddo gwelliannau, fel bod pobl Cymru yn elwa ar wasanaethau cyhoeddus atebol, wedi'u rheoli'n dda, sy'n cynnig y gwerth am arian gorau posibl. Mae hefyd yn ymrwymo i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da ledled sector cyhoeddus Cymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth gan Alastair McQuaid, Nick Selwyn a chydweithwyr o dan gyfarwyddyd Jane Holownia i gynnal yr Asesiad Gwella a pharatoi'r adroddiad hwn.

# Cynnwys

**Crynodeb a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ei ddull o sicrhau gwell canlyniadau ac mae ei gamau gweithredu yn arwain at welliannau yn y mwyafrif o feysydd; byddai gwella ei adroddiadau cyhoeddedig yn dangos i ddinasyddion pa mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni ei waith 9

Mae'r Cyngor wedi cadw'r un Amcanion Gwella ac mae'n datblygu trefniadau ymhellach i'w gynorthwyo i gyflawni'r rhain 11

Mae perfformiad y Cyngor wedi gwella yn y mwyafrif o feysydd blaenoriaeth 15

Mae'r Cyngor yn parhau i gynorthwyo pobl agored i niwed i allu byw'n annibynnol ac mae gwasanaethau wedi gwella mewn nifer o feysydd allweddol 15

Mae'r Cyngor yn helpu pobl i ddatblygu ac mae wedi cynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghaerffili o ystyried nifer uchel y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 22

Mae perfformiad y Cyngor o ran helpu i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol yn dda ar y cyfan. Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â gwendidau o ran sut mae lleihau carbon yn cael ei fesur 23

Mae'r Cyngor wedi datblygu dull manwl o werthuso gwelliannau mewn gwasanaethau ond nid yw bob amser yn cyflwyno darlun cytbwys o'i berfformiad 26

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 32

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 33

**Atodiad 3**
Cyfrifon a defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o adnoddau 35

**Atodiad 4**
Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 38

**Atodiad 5**
Cynnydd y Cyngor yn erbyn cynigion blaenorol ar gyfer gwella 39

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac arolygiaethau perthnasol Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair prif adran, sy'n cwmpasu gwaith cynllunio, darparu a gwerthuso gwelliannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor).

2 Ar y cyfan, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad **bod y Cyngor yn parhau i weithredu ei ddull o sicrhau gwell canlyniadau ac mae ei gamau gweithredu yn arwain at welliannau yn y mwyafrif o feysydd; byddai gwella ei adroddiadau cyhoeddedig yn dangos i ddinasyddion pa mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni ei waith.**

3 Mae'r Cyngor wedi pennu cyllidebau sy'n ei alluogi i barhau i ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gydag eraill i sicrhau gwelliannau ac mae'n cyflawni gwaith ar raddfa fawr gyda chynghorau eraill. Mae gwaith rheoli a chynlluniau ariannol cadarn yn sicrhau arbedion a chyllidebau cytbwys. Mae angen cryfhau trefniadau mewn rhai meysydd ac mae rhai heriau'n parhau o ran cynnal gwelliannau. Mae'r Cyngor wedi cynnal yr un Amcanion Gwella ac mae'n datblygu systemau ymhellach i'w cynorthwyo i gyflawni'r rhain. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran darparu ei Gytundebau Canlyniadau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

4 Mae perfformiad y Cyngor wedi gwella yn y mwyafrif o feysydd blaenoriaeth. Daethom i'r casgliad hwn ar sail y canlynol:

- Mae'r Cyngor yn parhau i gynorthwyo pobl agored i niwed i allu byw'n annibynnol ac mae gwasanaethau wedi gwella mewn nifer o feysydd allweddol.
- Mae'r Cyngor yn helpu pobl i ddatblygu ac mae wedi cynyddu ystod y gwasanaethau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghaerffili o ystyried nifer uchel y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- Mae perfformiad y Cyngor o ran helpu i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol yn dda ar y cyfan. Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â gwendidau o ran sut mae lleihau carbon yn cael ei fesur.

5 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol, yn cynnwys:

- cyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella;
- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliannau;
- cyhoeddi asesiad o'i berfformiad; a
- dilyn canllawiau statudol.

6 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod:

- Y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella, ac mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad statudol i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- Y Cyngor wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau o ran cyhoeddi gwybodaeth am welliannau. Gallai'r Cyngor wella ei hunanasesiad trwy adrodd yn fwy clir ar ei berfformiad ei hun, gan ddangos effaith ei waith, cymharu ei waith â gwaith cynghorau eraill ac adrodd yn llawn ar ei gynnydd o ran cyflawni ei amcanion a'i fwriadau.

7 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein safbwyntiau ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad bod barn y Cyngor ei hun ar ei berfformiad yn 2010-11 yn dangos ei fod wedi cyflawni gwelliannau yn y mwyafrif o feysydd roedd yn canolbwyntio arnynt, ond nad yw'r wybodaeth y mae'n adrodd arni yn gytbwys bob tro.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Nid oes gennym argymhellion ffurfiol ond rydym yn cyflwyno'r cynigion canlynol ar gyfer gwella i'r Cyngor er mwyn cefnogi gwelliannau:

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Gwella'r ddarpariaeth Gymraeg ar wefan y Cyngor. |
| C2 | Cwblhau mesurau llwyddiant seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer yr holl amcanion ac adrodd arnynt yn glir a rheolaidd. |
| C3 | Gwella trefniadau hunanasesu ac adrodd am berfformiad trwy:<br>• adrodd yn glir y graddau y cwblhawyd y camau gweithredu ar gyfer cyflawni Amcanion Gwella ac a gyrhaeddwyd y targedau ar gyfer gwella;<br>• pennu mesurau llwyddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pob Amcan Gwella ac adrodd ar y rhain;<br>• cyflwyno darlun cytbwys o ba mor dda mae'r Cyngor wedi cyflawni mewn perthynas â phob Amcan Gwella, gan gynnwys adrodd am berfformiad yn erbyn pob mesur;<br>• cynnwys hunanwerthusiad clir yn ei Adroddiad ar Berfformiad sy'n dangos a yw wedi cyflawni pob Amcan Gwella neu'n gwneud cynnydd boddhaol at wneud hynny;<br>• darparu mwy o ddata perfformiad a meincnodi cymharol i ddinasyddion er mwyn iddynt allu barnu perfformiad yn well;<br>• adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni targedau i ddinasyddion;<br>• darparu gwybodaeth am gostau unedau, costau gweithgarwch, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill i wella Adroddiad Perfformiad y Cyngor ac i helpu i nodi cyfleoedd pellach i wneud arbedion;<br>• gwerthuso ac adrodd ar yr effaith mae cyllidebau llai yn ei chael ar wasanaethau rheng flaen er mwyn nodi'r peryglon sy'n codi o benderfyniadau i ddadfuddsoddi; ac<br>• adrodd ar ei berfformiad i'r cyhoedd mewn dogfen neu ddogfennau sy'n helpu dinasyddion i ddeall perfformiad y Cyngor yn haws. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

9 Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac arolygiaethau Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ceir disgrifiad cryno o ddyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 2.

10 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad blynyddol am ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Nid yw cynllunio a chyflawni gwelliannau yn golygu y bydd gwasanaethau'n gwella bob amser a gall olygu gwneud yr un peth gyda llai o adnoddau. Mae Atodiad 1 yn cyflwyno mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gyda chymorth arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg), Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi creu darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut maent yn mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd a wnaeth y Cyngor ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei *Adroddiad Gwella Blynydd*ol diwethaf, gan ystyried hunanasesiad yr Awdurdod.

11 Gydol yr adroddiad hwn, rydym yn nodi beth sydd angen i'r Cyngor ei wneud er mwyn gwella ei wasanaethau. O gofio'r amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol iawn pe na baem yn canfod rhywbeth y gellir ei wella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru y dylent ymyrryd mewn rhyw fodd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – ac os gwneir argymhelliad ffurfiol, rhaid i'r Cyngor ymateb iddo'n gyhoeddus cyn pen 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn cyflwyno cynigion i'r Cyngor, disgwyliwn iddynt weithredu arnynt cyn dilyn hynny wedyn.

12 A yw'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i chi, ac yn hawdd i'w ddeall? Mae croeso i chi anfon sylwadau trwy e-bostio info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ei ddull o sicrhau gwell canlyniadau ac mae ei gamau gweithredu yn arwain at welliannau yn y mwyafrif o feysydd; byddai gwella ei adroddiadau cyhoeddedig yn dangos i ddinasyddion pa mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni ei waith

13 Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn trefnu ei waith ei hun i sicrhau gwelliannau, y prif amcanion y mae'r Cyngor yn eu pennu ar ei gyfer ei hun, ei gynnydd a'i effaith, a sut mae'n adrodd ar ei berfformiad i ddinasyddion. Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol ar berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'r cynnydd penodol a wnaeth o ran cyflawni ei Amcanion Gwella. Mae'r farn hon wedi'i llywio gan waith Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y wybodaeth rydym wedi ei chrynhoi a'i rhannu a chanfyddiadau'r gwaith blaenoriaeth a wnaed eleni.

14 Yn ogystal â rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gynllunio ar gyfer gwelliannau a'u cyflawni, mae'n bwysig bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o hyd a lled y cynnydd a'r gwelliannau y mae'n eu gwneud. Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn monitro ei berfformiad ei hun yn dda ac mae'n diwygio ei fesurau llwyddiant er mwyn iddo allu dangos effaith ei waith yn well ar ddinasyddion a chymunedau yng Nghaerffili. Un o'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, a chynghorau eraill yng Nghymru, yw sicrhau nad yw'n colli golwg ar y ffaith fod yn rhaid iddo barhau i gynnal ei waith arferol wrth iddo ganolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer gwella yn y dyfodol a sicrhau ei fod yn cyflawni amcanion penodol.

15 Ym mis Awst 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol* i'r Cyngor. Roedd y llythyr hwn yn rhoi sylwadau ar ddatblygiadau ers yr adroddiadau blaenorol a daeth i'r casgliad bod y Cyngor wedi pennu cyllidebau sy'n ei alluogi i barhau i ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau ac mae wedi ymrwymo i weithio gydag eraill i sicrhau gwelliannau. Mae angen cryfhau trefniadau mewn rhai meysydd ac mae rhai heriau'n parhau o ran cynnal gwelliannau. Daethom i'r casgliad cyffredinol hwn oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau sefydledig yn dilyn newidiadau diweddar i arweinwyr gwleidyddol a rheolwyr. Er bod penderfyniadau pwysig wedi'u gwneud mewn perthynas ag arian a gwasanaethau, mae angen mwy o waith i gysoni cynlluniau cyflenwi gwasanaethau gyda blaenoriaethau'r Cyngor.
- Mae gwaith cynllunio a rheoli ariannol cadarn yn sicrhau arbedion a chyllidebau cytbwys.
- Mae ymrwymiad parhaus y Cyngor i gydweithio ag eraill yn annog ffyrdd newydd o gynllunio a darparu gwasanaethau, gan gynnwys cyfuno gwasanaethau cymdeithasol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae angen i drefniadau ar gyfer sicrhau bod achosion o gydweithio'n cael eu llywodraethu'n dda a'u heffaith yn cael ei gwerthuso'n gadarn fod yn fwy eglur a dylid eu datblygu ymhellach.

- Ar y cyfan, mae'r wybodaeth am berfformiad yn gywir ond nid yw'r Cyngor yn gallu gwerthuso ei effaith yn gyson eto. Nid yw gwybodaeth allweddol am gostau a chymariaethau â safonau mewnol ac allanol ar gael yn eang er mwyn cefnogi hunanasesiadau effeithiol o berfformiad, adrodd cyhoeddus ac atebolrwydd.
- Datgelodd adolygiad achos pwysig o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ym mis Mehefin 2011, nad oedd arferion rheoli mewn rhai meysydd o wasanaethau gofal yn gadarn bob amser a nododd fod angen cryfhau'r ffordd roedd gwasanaethau yn rhannu gwybodaeth, a'r gweithdrefnau cynllunio ôl-ofal a rheoli risg. Mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn gweithredu mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad.

16 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi pennu bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella, a bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

17 Mae'r Cyngor wedi derbyn yr holl feysydd i'w gwella a nodwyd yn ein hadroddiadau blaenorol. Mae wedi gwneud peth cynnydd yn y mwyafrif ohonynt, er nad yw wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu safonau gwasanaethau gofynnol. Pan fo camau gweithredu ar waith, byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar gynnydd y Cyngor wrth eu gweithredu. Mae cynnydd y Cyngor yn erbyn yr holl flaenoriaethau ar gyfer gwella hyd yma wedi'i grynhoi yn Atodiad 5.

## Mae'r Cyngor wedi cadw'r un Amcanion Gwella ac mae'n datblygu trefniadau ymhellach i'w gynorthwyo i gyflawni'r rhain

18 Mae'r Cyngor wedi pennu sail resymegol glir ar gyfer dewis y meysydd y mae am ganolbwyntio ar eu gwella, yn seiliedig ar ei berfformiad cyfredol, ymgynghoriad â'r cyhoedd a'r adnoddau sydd ar gael. Mae ei wyth Amcan Gwella yn adlewyrchu'r 13 blaenoriaeth trosfwaol yng nghynllun corfforaethol 2009-12 *Adeiladu Cymunedau Gwell*, sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Gymunedol a ddatblygwyd gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae camau'n cael eu cymryd i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau gweithredu ar gyfer cyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor a chynlluniau gwasanaethau unigol.

19 Mae fersiwn Gymraeg a fformatau eraill ar gael gan y Cyngor ar gais a chrynhodd y Cyngor yr Amcanion Gwella mewn cylchlythyr i ddinasyddion a gyhoeddwyd ym mis Medi. Mae angen i'r Cyngor roi mwy o sylw i ganllawiau statudol er mwyn datblygu ei Gynllun Gwella mewn sawl maes, sydd wedi'u nodi fel cynigion ar gyfer gwella.

20 Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir ei Amcanion Gwella mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cyngor, ynghyd â mesurau llwyddiant, perfformiad cyfredol lle mae'r wybodaeth ar gael, targedau a bennir a chamau gweithredu perthnasol. Fodd bynnag, nid oedd y rhain i gyd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyngor ar ei berfformiad yn 2010-11 mewn perthynas â'i Amcanion Gwella. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw ei ddangosyddion perfformiad cyfredol yn ei alluogi i fesur yr effaith y mae'n ei gael ar ddinasyddion yn gyson. Mae wedi gwneud peth cynnydd wrth ddatblygu mesurau newydd ers pennu ei Amcanion Gwella cyntaf yn hydref 2010. Mae Amcanion Gwella'r Cyngor wedi'u rhestru yn Atodiad 4.

**Mae'r Cyngor wrthi'n cwblhau cynllun ariannol tymor canolig er mwyn sicrhau bod ei adnoddau ariannol yn targedu ei flaenoriaethau gwella am y tair blynedd hyd at 2014-15**

21 Fel pob cyngor yng Nghymru, mae angen i'r Cyngor ostwng ei wariant refeniw. Dros y cyfnod 2014-15, mae angen iddo wneud £9.6 miliwn o arbedion ariannol. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn diwygio ei gynllun ariannol tymor canolig i amlygu meysydd lle mae angen gwneud arbedion, ac mae ganddo hanes da o nodi arbedion cyn y flwyddyn ariannol pan fo angen eu gwireddu. Mae hefyd wedi diweddaru rhagdybiaethau'r cynllun blaenorol i adlewyrchu newidiadau diweddar yng nghyllid refeniw Llywodraeth Cymru. Rydym yn deall bod yr holl arbedion hyn wedi'u nodi gyda chynlluniau penodol, ar wahân i £0.4 miliwn sy'n parhau yn darged i'w gyflawni drwy reoli swyddi gwag. Oherwydd hyn, bu modd i'r Cyngor osgoi cynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfer 2011-12 ac mae'n cynnig gwneud yr un fath ar gyfer 2012-13.

22 Mae cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru hefyd yn gostwng. Mae'r Cyngor wedi nodi bwlch cyllid o tua £13 miliwn erbyn 2014-15, rhwng cynlluniau gwariant y Cyngor a'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio arbedion cronedig a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol i bontio'r bwlch hwn drwy refeniw i gyfraniadau cyfalaf. Mae sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gefnogi rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol yn cyflwyno heriau sylweddol i'r Cyngor, yn enwedig wrth ddarparu ei gynlluniau ar gyfer moderneiddio adeiladau ysgolion.

23 Ym mis Rhagfyr 2011, hysbyswyd y Cyngor bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllideb o £92 miliwn o dan y fenter *Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif*. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £46 miliwn o'r gyllideb hon a bydd angen i'r Cyngor ddarparu cyllid cyfatebol. O'r £46 miliwn o gyllid sy'n ofynnol gan y Cyngor, mae wedi nodi £14 miliwn sydd ar gael iddo ar hyn o bryd ac yn bwriadu cyllido'r gweddill o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol. Bwriedir i'r rhaglen ddechrau yn 2014, ond mae'r Cyngor yn gobeithio dechrau cyn hyn.

24 Yn ddiweddar, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor, a daeth i'r casgliad bod y datganiadau ariannol yn foddhaol. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

**Mae dull y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd yn gwella ac mae cynlluniau ar waith i alluogi dinasyddion i helpu i lywio gwasanaethau'r dyfodol mewn cymunedau lleol**

25 Mae ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd yn gwahodd dinasyddion i gymryd rhan mewn trafodaethau, deialog a chamau gweithredu ynglŷn â sut y darperir gwasanaethau a pha wasanaethau sydd angen rhoi blaenoriaeth i'w gwella. Amlygodd gwaith Asesu Gwelliannau Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010 ymgysylltu â'r cyhoedd fel mater pwysig yn y mwyafrif o awdurdodau lleol. O ganlyniad, mae wedi bod yn destun astudiaeth Cymru gyfan er mwyn adolygu gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ledled llywodraeth leol.

26 Roedd ein hadolygiad yn dangos bod y Cyngor wedi ymrwymo i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd. Mae ganddo sianeli cyfathrebu ar gyfer hysbysu'r cyhoedd ac mae cynnydd yn cael ei wneud i sicrhau bod cymunedau'n cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae rhai enghreifftiau o arferion da lle mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn cyfrannu at gynllunio gwasanaethau a threfniadau llywodraethu da, ond mae'n rhy gynnar i asesu effaith y rhain. Cesglir gwybodaeth ddefnyddiol mewn ymarferion ymgynghori, ond gellid gwella'r broses o ddadansoddi data a darparu adborth i gyfranogwyr.

**Mae'r Cyngor wedi sefydlu seilwaith technoleg cadarn, ac mae'n defnyddio technoleg yn effeithiol i weddnewid gwasanaethau a sicrhau arbedion. Gellid gwella'r gwaith cynllunio strategol a'r trefniadau gwneud penderfyniadau ym maes technoleg**

27 Mae defnyddio technoleg yn effeithiol yn hollbwysig er mwyn gweddnewid darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, gwella'r canlyniadau ar gyfer dinasyddion a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Gall technoleg gefnogi gwahanol ffyrdd o weithio, darparu gwasanaethau ac ymgysylltu â dinasyddion, a galluogi cynghorau i ddarparu mwy am lai. Mae'r ffordd y mae technoleg yn cael ei darparu a'i rheoli yn effeithio'n uniongyrchol ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith ledled y Cyngor ac mae'n effeithio ar bob gweithiwr cyngor bron iawn. Gall trefniadau llywodraethu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) gwael arwain at ddefnyddio systemau amhriodol, systemau ddim ar gael a rhwystredigaeth ledled y sefydliad.

28 Yn 2010, nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod llawer o awdurdodau lleol yn cael trafferth sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n effeithiol er mwyn cynorthwyo i weddnewid gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd, ac o ganlyniad, mae holl gynghorau Cymru wedi cynnal adolygiadau o dechnoleg. Nododd ein hadolygiad o wasanaethau TGCh y Cyngor fod y trefniadau cyfredol ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o arwain at welliannau parhaus. Er bod y trefniadau'n gadarn, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod cynlluniau technoleg yn cynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau gwella'r Cyngor ac annog penderfyniadau agored ac eglur ynglŷn â thechnoleg. Mae cyfle i wneud gwelliannau yn y dyfodol drwy ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad yn well.

**Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal pleidlais ymysg ei denantiaid bleidleisio yn gynnar yn 2012 i benderfynu a ddylid trosglwyddo'r stoc tai i'w alluogi i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru.**

29 Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru lunio rhaglenni realistig ar gyfer sicrhau bod eu heiddo yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012. Mae'r Safon wedi'i datblygu i ddarparu targed cyffredin ar gyfer cyflwr ffisegol yr holl dai yng Nghymru ac mae'n cynnwys saith rhan. Mae rhannau un i bedwar yn ymwneud â chyflwr ffisegol y cartref; mae rhan pump yn ymwneud ag ansawdd y gwasanaeth rheoli tai; ac mae rhannau chwech a saith yn ymwneud ag amgylchedd y cartref a pha mor addas ydynt ar gyfer anghenion unigol y preswylwyr.

30 Dengys arolwg cyflwr stoc tai y Cyngor bod angen i'r Cyngor wario £173 miliwn i sicrhau bod ei gartrefi yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, ond dim ond £115 miliwn sydd ganddo ar gael ar hyn o bryd. Penderfynodd y Cyngor gynnal pleidlais ymysg ei denantiaid ar drosglwyddo'r stoc tai ac mae wrthi'n ymgynghori â'r tenantiaid ynglŷn â chynnig i drosglwyddo eu cartrefi i Gastell Mynydd, sef Tai Cymunedol Cydfuddiannol newydd, a fyddai'n berchen eu cartrefi ac yn eu rheoli pe baent yn cael eu trosglwyddo. Drwy drosglwyddo'r stoc tai, bydd y landlord newydd yn gallu codi arian preifat i fuddsoddi mewn gwella'r eiddo. Nid yw'r opsiwn hwn ar gael i gynghorau.

31 Cytunodd cyfarfod y Cyngor ar 17 Tachwedd 2011 ar y wybodaeth ychwanegol i'r Ddogfen Gynnig a fydd yn cael ei dosbarthu i'r holl denantiaid fel rhan i'r broses trosglwyddo tai. Mae'r wybodaeth ychwanegol yn rhoi manylion gallu'r Cyngor i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2019-20. Anfonwyd y wybodaeth ychwanegol hon at denantiaid erbyn diwedd mis Tachwedd 2011 a dechreuodd cyfnod ymgynghori newydd yn gynnar ym mis Rhagfyr 2011 a fydd yn para tan 9 Ionawr 2012. Byddwn yn adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad i'r Cyngor ac yna penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r bleidlais ai peidio. Disgwylir i'r bleidlais gael ei chynnal rhwng canol mis Ionawr a chanol mis Chwefror 2012.

**Mae gan y Cyngor hanes da o gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid i gynllunio a darparu gwasanaethau**

32 Mae gan y Cyngor hanes da o gydweithio ag eraill. Mae'r Cyngor yn integreiddio ei wasanaethau gofal cymdeithasol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae hyn yn golygu 3,000 o staff a chyllideb refeniw o £107 miliwn. Mae'r Cyngor yn cydweithio â sefydliadau amrywiol i ddarparu gwelliannau i ddinasyddion yng Nghaerffili. Er enghraifft, mae rhaglenni gwaith pwysig fel *Rhaglen Llesgedd Gwent*[1] a Chydweithrediad Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru[2] yn dangos ymrwymiad i gydweithio sy'n ailfodelu sut y darperir gwasanaethau i lawer o ddinasyddion a rhanddeiliaid. Mae'r prosiectau hyn yn cynrychioli rhaglenni newid pwysig o ran sut mae'r Cyngor yn trefnu ei waith. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio drwy Brosiect Gwyrdd[3], prosiect rheoli gwastraff gyda Chyngor Sir Fynwy, Cyngor Caerdydd, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bro Morgannwg.

**Canmolodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg waith y Cyngor gyda'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Nododd rai meysydd i'w gwella o ran sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiad statudol mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg**

33 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Mae'r prif gyfrifoldeb am ystod a safon gwasanaethau yn nwylo'r cynghorau sy'n eu darparu, gan weithio'n unol â fframwaith statudol a chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Disgwylir i bob cyngor ddarparu Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n egluro sut y rhoddwyd ei gynllun ar waith. Mae'r adroddiad yn galluogi'r Bwrdd i gynnig cyngor ar sut y gallai cyngor wella ei drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo gwelliannau.

34 Canmolodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg y Cyngor am ei waith adeiladol gyda'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Datgelodd y Bwrdd bod y Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau i'r wybodaeth etholiadol a ddarparwyd yn y Gymraeg, ond fod angen rhoi sylw i rai materion o hyd, yn bennaf mewn perthynas â gwefan y Cyngor. Mae'r diffyg cynnydd gyda darpariaeth Gymraeg ar y wefan wedi bod yn achos pryder i'r Bwrdd ac mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i wella. Canmolwyd y Cyngor am ei waith wrth wella'r data ar sgiliau iaith Gymraeg at ddiben cynllunio'r gweithlu. Nododd y Bwrdd hefyd welliannau yn y broses ar gyfer ystyried materion Cymraeg wrth gontractio ei wasanaethau.

1 Partneriaeth yw *Rhaglen Llesgedd Gwent* rhwng Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a chynghorau Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd sydd â'r nod o ddarparu gwasanaethau wedi'u hintegreiddio i bobl agored i niwed.

2 Mae Consortiwm De Ddwyrain Cymru yn cynnwys awdurdodau addysg lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r Consortiwm yn datblygu dulliau ar y cyd ar gyfer gwella perfformiad ysgolion a chefnogi datblygiad personol staff addysg.

3 Partneriaeth yw Prosiect Gwyrdd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bro Morgannwg.

# Mae perfformiad y Cyngor wedi gwella yn y mwyafrif o feysydd blaenoriaeth

35 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi pa mor dda y mae'r Cyngor yn gwella ei wasanaethau. Mae'n adlewyrchu safbwyntiau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â gwasanaethau plant ac oedolion ac Estyn o ran addysg, ac yn defnyddio rhai o'n hadolygiadau ein hunain o berfformiad y Cyngor yn erbyn rhai o'r Amcanion Gwella penodol y pennodd y Cyngor iddo'i hun yn 2010-11.

## Mae'r Cyngor yn parhau i gynorthwyo pobl agored i niwed i allu byw'n annibynnol ac mae gwasanaethau wedi gwella mewn nifer o feysydd allweddol

**Mae gan wasanaethau cymdeithasol yng Nghaerffili gryfderau sylweddol ac mae rheolwyr yn ymwybodol o'r agweddau sydd angen eu gwella**

36 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yw gwneud asesiadau a phenderfyniadau ynglŷn â gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, gan annog y darparwyr gwasanaethau i wella eu darpariaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd, mae yna fframwaith newydd ar waith ar gyfer arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol o ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ddau arolygiad byr yng Nghaerffili yn 2010, a chynorthwyodd Arolygiaeth Iechyd Cymru gydag adolygiad o achos o ladd. Cynhaliwyd yr holl waith maes rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2010.

37 Roedd un arolygiad mewn ymateb i'r adolygiad rheoli annibynnol a gomisiynwyd gan y Cyngor yn dilyn adolygiad achos difrifol, ac archwiliad dilynol o Wasanaeth Diogelu Gwasanaethau Plant. Roedd yr ail yn arolygiad dilynol o adolygiad 2008, lle'r oedd asesu a rheoli gofal Gwasanaethau Anabledd Dysgu ar gyfer oedolion wedi'i nodi fel maes i'w wella. Gwelodd y ddau arolygiad bod y gwasanaethau wedi gwella, gyda chryfderau a chynlluniau pellach ar gyfer gwelliannau parhaus. Ymgorfforodd y gwasanaethau cymdeithasol ganfyddiadau'r arolygiad yn eu camau gweithredu ar gyfer sicrhau gwelliannau.

38 Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i wella a phennu safonau yn barhaus ac mae wedi llwyddo i ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad rheolwyr a staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau i nodi meysydd i'w gwella. Mae rheolwyr a staff ar bob lefel yn gweithio mewn modd meddylgar gan geisio datrys problemau ac maent yn gweithio i wella perfformiad mewn ffordd amserol a threfnus.

39 Mae adroddiad y Cyfarwyddwr yn pwysleisio bod ei werthoedd craidd o Ddewis, Urddas, Parch a Hawliau wrth wraidd ei ymyriadau a'i gymorth i bobl sy'n defnyddio neu sydd angen gwasanaethau. Mae tystiolaeth o arolygiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym maes Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn cefnogi'r honiad hwn. Er bod galw cynyddol wedi rhoi straen ar wasanaethau, er enghraifft asesu oedolion, mae'r gwasanaethau wedi'u cynnal neu wedi gwella i raddau helaeth. Bydd cynnal y lefel hon o berfformiad gyda llai o adnoddau yn dipyn o her i'r Cyngor yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried y cynnydd a ddisgwylir mewn galw.

40 Mae pobl sy'n cysylltu ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am gyngor wedi nodi nad yw safonau'r Cyngor ei hun wedi'u bodloni ar rai achlysuron. Mae uwch reolwyr wedi bod yn mynd ati'n frwd i unioni'r sefyllfa, gan weithio â phartneriaid yn aml i wneud hynny.

41 Mae cyfyngiadau ar gyllidebau wedi'u rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau nad ydynt yn effeithio'n niweidiol ar wasanaethau, ac mae uwch reolwyr yn hyderus y byddant yn gallu cynnal y sefyllfa am y tair blynedd nesaf. Adleolwyd prif swyddfa'r gwasanaethau cymdeithasol yn 2010 i bencadlys y Cyngor, gan arbed £500,000 y flwyddyn, tra'n sicrhau nad oedd y symud yn effeithio'n niweidiol ar wasanaethau rheng flaen. Mae'r symud hefyd wedi galluogi perthynas waith agosach â chyfarwyddiaethau eraill. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi meysydd lle gellir gwneud arbedion tra'n amddiffyn ansawdd gwasanaethau, gan gynnwys cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a chyflwyno *Rhaglen Llesgedd Gwent* yn raddol.

42 O ystyried y risgiau a'r heriau a phwysigrwydd canolog *Rhaglen Llesgedd Gwent* wrth foderneiddio a gweddnewid gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl fregus yng Ngwent, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig cynnal adolygiad cychwynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Rhaglen. Bydd y gwaith archwilio yn canolbwyntio ar roi sicrwydd cynnar bod y Rhaglen wedi'i sefydlu ac yn gweithio mewn ffordd sy'n debygol o gyflawni'r nodau a'r amcanion sydd wedi'u nodi a bydd y casgliadau yn cael eu cynnwys yn ein Hasesiad Corfforaethol nesaf.

**Nododd adolygiad o achos o ladd fod yna ddiffygion sylweddol mewn rhai trefniadau rhyngasiantaethol**

43 Arweiniodd y gwaith gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru at lunio adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011 a nododd nad oedd gan y cymorth a ddarparwyd i unigolyn agored i niwed ac ansefydlog ddigon o ffocws ac nad oedd wedi'i gydlynu'n dda rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio da ar gyfer asesu a chynllunio gofal yn effeithiol. Er bod yr achos o ladd wedi digwydd yn 2009, cynhaliwyd yr archwiliad ym mis Tachwedd 2010 a chyhoeddwyd yr adroddiad yn 2011. Mae canfyddiadau'r adolygiad yn berthnasol i flwyddyn yr adroddiad, felly maent wedi'u hamlygu yn yr *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad* eleni gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac maent yn gwneud argymhellion i'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

**Mae cyfran uwch o gartrefi yng Nghaerffili yn derbyn budd-dal tai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac mae'r amseroedd prosesu yn agos i lefelau cyfartalog**

44 Mae timau budd-dal tai a'r dreth gyngor yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion mewn nifer o feysydd, gan gynnwys tlodi plant, digartrefedd, bod heb waith a chymorth ar gyfer pobl ag anabledd. Drwy wneud hynny, maent hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni Amcanion Gwella amrywiol. Mae gwasanaethau budd-daliadau effeithiol yn hwyluso mynediad tecach i gartrefi boddhaol ac mae hynny'n helpu i ddatrys problemau iechyd. Gall gwasanaethau budd-daliadau sy'n cyflawni'n wael rwystro pobl rhag dychwelyd i waith cyflogedig, atal pobl rhag derbyn y

cymorth ariannol sydd ei angen arnynt ac achosi caledi ychwanegol.

45 Yn 2009, roedd 19.4 y cant o gartrefi yng Nghaerffili yn derbyn budd-dal tai, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 17.5 y cant. Roedd 27.5 y cant o gartrefi yng Nghaerffili yn derbyn budd-dal y dreth gyngor o gymharu â chyfartaledd Cymru o 23.9 y cant am yr un cyfnod (wrth gymharu faint sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghaerffili â faint sy'n hawlio budd-daliadau mewn cynghorau eraill, mae Caerffili ymhlith y cynghorau â'r niferoedd uchaf). Roedd poblogaeth 'oedran budd-daliadau' Caerffili (h.y. y rhai a allai hawlio budd-daliadau) yn bumed yng Nghymru (lle mai'r cyntaf yw'r uchaf) ym mis Mai 2011. Roedd ei faich achosion bryd hynny mewn safle tebyg, sef y pedwerydd cyngor uchaf yng Nghymru.

46 Mae'r baich achosion yng Nghaerffili, ym mis Mai 2011 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael), wedi cynyddu ers mis Ebrill 2009 (h.y. dros y ddwy flynedd ddiwethaf) o ychydig llai na phedwar y cant o gymharu â chyfartaledd Cymru o saith y cant am yr un cyfnod. Mae nifer y derbynyddion budd-dal tai wedi cynyddu ers mis Ebrill 2009 o ychydig dros wyth y cant ac ychydig dros bedwar y cant ar gyfer budd-dal y dreth gyngor. Mae'r ddau gynnydd yn debyg i'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru ar gyfer y cyfnod hwnnw, sef wyth y cant ar gyfer derbynyddion budd-dal tai a phump y cant ar gyfer derbynyddion budd-dal y dreth gyngor, sy'n dangos nad yw Caerffili wedi gweld yr un lefel o gynnydd â rhai cynghorau eraill, er bod mwy o bobl y sir wedi bod yn hawlio budd-daliadau yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

47 Ar y cyfan, cymerwyd 25 diwrnod i brosesu hawliadau newydd yn 2010-11. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU o 23 diwrnod am yr un cyfnod. Mae'r perfformiad wedi parhau'n eithaf sefydlog ers 2008-09 ac nid yw Caerffili wedi gweld y dirywiad mewn prosesu hawliadau newydd a brofwyd gan rai cynghorau yn y DU. Cymerwyd saith diwrnod i brosesu hysbysiadau o newid mewn amgylchiadau. Mae hyn yn cymharu'n dda â chyfartaledd y DU o 10 diwrnod a'r cyfartaledd yng Nghymru o saith diwrnod am yr un cyfnod. Mae hyn yn golygu nad oedd y dirywiad mewn perfformiad a welwyd mewn rhai cynghorau o gymharu â chyfartaledd y DU a Chymru mor wael yng Nghaerffili.

48 Daeth Adroddiad Gordaliadau Swyddfa Archwilio Cymru (Gorffennaf 2010) i'r casgliad bod gan Gaerffili drefniadau boddhaol ar waith i atal gordaliadau budd-daliadau a'i fod yn gallu nodi achosion o ordalu budd-daliadau yn dda. Mae lefel gyffredinol y gordaliadau a bennir fel camgymeriadau gan y cyngor yn cael eu rheoli'n dda ac ni chollwyd unrhyw gymhorthdal yn ystod 2009-10.

**Mae'r cynnydd o ran adolygu sut mae'r Cyngor yn rheoli cwynion ac yn defnyddio adborth gan gwsmeriaid i wella gwasanaethau wedi bod yn araf**

49 Mae gwella'r ffordd y mae'n ymgysylltu â dinasyddion ac yn defnyddio adborth i wasanaethau gwella wedi bod yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor. Pennodd y Cyngor dri tharged ar gyfer 2010-11 i gyflawni'r flaenoriaeth hon ar waith, gan ganolbwyntio ar: wella a lleihau cwynion; canfod beth mae dinasyddion am ei weld a'i ddarparu; a gwella llif gwybodaeth a lleihau costau.

50 Gwerthuswyd gwasanaethau i bennu pa welliannau sydd wedi'u gwneud ar gyfer dinasyddion. Yn achos y camau gweithredu eang newydd a oedd i'w rhoi ar waith yn 2010-11 mae perfformiad y Cyngor yn amrywio. Mae'r cynnydd o ran adolygu a gweithredu polisi cwynion wedi bod yn araf ac nid oes llawer o'r camau a nodwyd ar gyfer 2010-11 wedi'u rhoi ar waith o gwbl; er enghraifft, adolygiad o'r polisi cwynion. Hefyd, nid yw llawer o'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â gwella ffordd y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'u datblygu a byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain fel rhan o gynllun gweithredu Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd sy'n cael ei fabwysiadu ar hyn o bryd. Mae rhai o'r gwasanaethau eraill na ddarparwyd yn 2010-11 wedi'u rhoi ar waith yn 2011-12; fel 'Dwedwch Unwaith Wrthym' a'r Gwasanaeth Gwirio Cenedlaethol. Ar y cyfan, mae'r gwaith o gyflawni'r camau hyn wedi bod yn araf ac wedi'i oedi tan 2011-12.

51 Pennodd y Cyngor wyth dangosydd yn 2010-11 i farnu a yw wedi llwyddo i gyflawni ei Amcanion Gwella. Dengys perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn beth gwelliant. Hefyd, mae'r Cyngor wedi ehangu ei sail wybodaeth i gynnwys dangosyddion newydd amrywiol i'w alluogi i farnu pa mor dda y mae'n cyflawni yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn adrodd ar berfformiad yn erbyn nifer o'r rhain ar hyn o bryd.

52 Un ffynhonnell wybodaeth dda ar gyfer barnu pa mor llwyddiannus mae cynghorau'n ymdrin â chwynion yw gwybodaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon). Yn ei lythyr blynyddol diweddaraf i'r Cyngor ar gyfer 2010-11, dywedodd yr Ombwdsmon fod nifer y cwynion a dderbyniwyd ac a ymchwiliwyd iddynt yng Nghaerffili wedi lleihau'n gyffredinol dros y flwyddyn ddiwethaf, a bod nifer y setliadau anffurfiol wedi cynyddu. Bu cynnydd bychan yn nifer y cwynion am y Cyngor a ddaeth i law'r Ombwdsmon, o 47 yn 2009-10 i 54 yn 2010-11. Er hynny, lleihaodd nifer y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt, o 18 i dri.

53 Yn *Adroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd, nodwyd nad oedd y Cyngor wedi cynnwys gwybodaeth sylfaenol yn ei Gynllun Gweithredu er mwyn cymharu'r gwelliant â'r Amcanion Gwella o ran lleihau costau. Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth sy'n amlinellu'r dulliau amrywiol a ddefnyddiwyd i hyrwyddo'r defnydd o ddulliau cost isel fel gwasanaeth Looking Local, hyrwyddo trafodion debyd uniongyrchol a defnyddio cardiau PayPal. Er hynny, fel y llynedd, nid oes gwybodaeth ynglŷn â faint mae'r dewisiadau amgen hyn yn ei gostio, pa arbedion a gafwyd a beth yw'r effaith ar gwsmeriaid. Heb wybodaeth o'r fath, mae'n amhosibl i'r Cyngor ddangos pa welliannau a gafwyd yn sgil ei gamau gweithredu ac a lwyddodd i leihau costau.

**Mae asiantaethau a phartneriaid yn cydweithio'n dda i ddiogelu plant a phobl ifanc er bod rhai targedau blaenoriaeth wedi'u gohirio a rhai mesurau heb eu hadrodd yn llawn**

54 Yn 2010-11 a 2011-12, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar gyflwyno dwy fenter benodol i wella'r modd mae asiantaethau a phartneriaid yn cydweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc, sef:

- datblygu a gweithredu Strategaeth Cymorth i Deuluoedd Gwasanaethau Plant er mwyn sicrhau dull cyfannol o ddarparu cymorth; a

- datblygu tîm sy'n 'canolbwyntio ar y plentyn' ar y cyd â'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc – a elwir yn brosiect Tîm o Amgylch y Teulu bellach – i gynorthwyo rhai ag anghenion.

55 Mae'r Cyngor wedi paratoi fersiwn drafft o'r Strategaeth Cymorth i Deuluoedd ac wrthi'n ymgynghori â phartneriaid. Cafodd prosiect peilot 'Tîm o Amgylch y Teulu' y Cyngor ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2010, ac mae bellach yn cael ei gyflwyno fesul cam yn holl gymunedau Caerffili. Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflwyno'i gamau gweithredu er nad yw ambell gam unigol, fel cyfuno adnoddau asiantaethau eraill, ar waith yn llawn eto. Nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd mewn sefyllfa i weithredu'r prosiect Tîm o Amgylch y Teulu yn llawn tan 2013.

56 Mae perfformiad y Cyngor o ran y mesurau llwyddiant a bennwyd ganddo yn amrywio. Mae dangosyddion allweddol fel nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi cynyddu o 820 i 877 rhwng 2009-10 a 2010-11, ac mae'r Cyngor wedi pennu targed ar gyfer gostwng hyn i 868 yn 2011-12. Ar y llaw arall, bu lleihad bychan yn nifer yr achosion agored o blant sy'n derbyn gofal yn yr un cyfnod, o 1,330 i 1,326.

57 Er hynny, ni adroddir am berfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion a gafodd eu pennu yn 2010-11 yn Adroddiad Perfformiad y Cyngor gan gynnwys mesurau pwysig fel nifer yr achosion agored o blant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a nifer yr achosion agored o blant sy'n derbyn gofal â gweithiwr cymdeithasol dynodedig. Maent yn fesurau defnyddiol er mwyn asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn rheoli'r maes pwysig hwn.

58 Mae dangosyddion newydd wedi'u cynnwys ar gyfer 2011-12 hefyd er mwyn gallu barnu effaith prosiect Tîm o Amgylch y Teulu yn well. Maent yn cynnwys mesurau canlyniadau ansoddol fel canran y plant, pobl ifanc, rhieni a chynhalwyr sy'n teimlo bod y Tîm o Amgylch y Teulu wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt. Trwy gyflwyno mesurau fel y rhain, bydd y Cyngor yn gallu gwerthuso a yw'n gwneud gwahaniaeth i bobl.

59 Yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd, nodwyd bod y Cyngor yn bwriadu ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â'u profiadau a'u sylwadau i weld a lwyddodd i ddiwallu'u hanghenion, ac y byddem yn adolygu'r agwedd hon ar berfformiad. Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn dweud nad yw wedi cwblhau gwerthuso'r model Tîm o Amgylch y Teulu eto, a'i fod wrthi'n gwneud hyn trwy gael adborth gan weithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaethau trwy gyfrwng holiaduron, cyfweliadau a grwpiau ffocws.

**Gwnaed cynnydd da o ran hyrwyddo manteision ffordd iach ac egnïol o fyw, ac mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i ddatblygu mesuriadau i farnu manteision y gwaith hwn yn well**

60 Mae rhoi pwyslais ar hyrwyddo ffordd iach ac egnïol o fyw yn arbennig o berthnasol yng Nghaerffili, gan fod iechyd dinasyddion y sir ymysg y gwaethaf yng Nghymru. Er bod disgwyliad oes yng Nghaerffili, fel Cymru'n gyffredinol, yn cynyddu fel y noda cyhoeddiad diweddar Iechyd Cyhoeddus Cymru[4], nid yw'r gwelliant hwn yn ymestyn i bob ardal yn gyfartal. Mewn llawer o achosion, ceir bylchau anghydraddoldeb lleol a chenedlaethol sylweddol rhwng yr

4 *Tueddiadau marwolaeth a disgwyliad oes yng Nghaerffili,* Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2011.

ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig, o ran disgwyliad oes a marwolaethau o achosion gwahanol. Mae yna hefyd anghydraddoldebau mewn ansawdd bywyd yn nhermau disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabledd. Er enghraifft, mae bron i naw mlynedd o fwlch mewn disgwyliad oes dynion rhwng y wardiau mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghaerffili. Wrth ystyried disgwyliad oes iach, mae'r bwlch hyd yn oed yn fwy – sef tua 19 blynedd.

61 Caerffili sydd â'r drydedd gyfradd waethaf o farwolaethau o ganser i ddynion o dan 65 oed yng Nghymru; y drydedd gyfradd waethaf yng Nghymru o ran pobl ordew a thros eu pwysau; a'r ail ystadegau gwaethaf o ran hunanasesiad iechyd meddwl a lles yng Nghymru. Mae asiantaethau sector cyhoeddus yn wynebu heriau cynyddol felly wrth geisio gwella iechyd a lles dinasyddion Caerffili.

62 Roedd Amcan Gwella'r Cyngor yn 2010-11 yn canolbwyntio ar gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon a gwella addysg a chyfathrebu trwy gyflwyno sawl rhaglen wahanol. Trwy gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd dangosyddion iechyd a'r disgwyliad oes yn gwella dros amser.

63 Bu cynnydd da yn 2010-11 o ran cyflwyno'r cynlluniau hyn, ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod mwy a mwy yn cymryd rhan mewn mentrau fel *Rhaglen Ysgolion Iach*, Cynllun y Blynyddoedd Cynnar Iach a'r Rhaglen Atgyfeirio i Ymarfer Corff. Er enghraifft, mae nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y *Rhaglen Ysgolion Iach* wedi cynyddu o naw yn 2009-10 i 22 yn 2010-11. Hefyd, cynyddodd nifer y bobl sy'n mynychu'r rhaglen atgyfeirio i ymarfer corff yn yr un cyfnod, o 647 i 1,015.

64 Fel y nodwyd yn ein *Cynllun Gwella Blynyddol* y llynedd, ni fyddwn yn gallu gweld i ba raddau mae gweithgareddau'r Cyngor i gynyddu cyfraddau cyfranogi yn gwella dangosyddion iechyd fel gordewdra a diabetes yn y tymor byr. O ganlyniad, ni fydd manteision gwaith y Cyngor o hyrwyddo ffordd o fyw iach ac egnïol yn amlwg am beth amser eto. Mae'n braf gweld bod Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am rai o'r heriau sy'n ei wynebu, sy'n rhoi pwysigrwydd yr Amcan Gwella hwn yn ei gyd-destun.

65 Mae swyddogion yn ymwybodol o'r angen i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar adrodd am ganlyniad y gweithgarwch, nid dim ond mesur faint o waith maent yn ei wneud. Mae wrthi'n datblygu mesurau tebyg fel rhan o gynllun gweithredu Creu Caerffili Egnïol, ymateb y Cyngor i Strategaeth *Dringo'n Uwch: Creu Cymru Egnïol* Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae rhai o'r bylchau a welsom y llynedd yn parhau. Er enghraifft, camddefnydd o alcohol a nodwyd fel maes pwysig i fynd i'r afael ag ef yn yr Asesiad o Anghenion y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles[5].

### Mae nifer a phrydlondeb yr asesiadau gofal wedi gwella'n sylweddol ond nid yw'r Cyngor eto'n mesur a yw pobl yn well eu byd

66 Yn 2010-11, canolbwyntiodd y Cyngor yn benodol ar wella prydlondeb ac ansawdd asesiadau o anghenion cleient o dan ei system cynllunio gofal. Mae hwn yn faes gwaith pwysig gan fod asesiad yn pennu a

5 *Mae Asesiad o Anghenion y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles*, Cyngor Bwrdeistref Caerffili, 2010 yn nodi camddefnydd o alcohol fel un o'r prif feysydd i ganolbwyntio arnynt wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

yw'r unigolyn angen gwasanaeth gofal cymunedol ac, os felly, pa fath o wasanaethau sydd eu hangen. Efallai fod angen amrywiaeth o wasanaethau, o gymhorthion ac addasiadau yng nghartref yr unigolyn i weithwyr gofal neu ofal preswyl, yn ogystal â helpu pobl i symud o'r ysbyty i leoliadau mwy annibynnol.

67 Mae'r Cyngor yn bwriadu gwella nifer yr asesiadau gofal a gwblhawyd, a chyflymu'r broses o gwblhau asesiadau. Yn bwysicach, mae hefyd yn rhoi pwyslais ar wella ansawdd gwasanaethau trwy systemau sicrhau ansawdd a rheoli gofal mewnol effeithiol sy'n hyrwyddo safonau gofal ac ansawdd bywyd gwell.

68 Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cofnodi gwelliannau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer yr oedolion a oedd yn aros am asesiad y tu hwnt i'r targedau amser a bennwyd, o 338 yn 2008-09 i 62 yn 2010-11, a chynyddodd nifer yr asesiadau a gychwynnodd yn brydlon o 65.3 y cant i 71.9 y cant yn yr un cyfnod. Mae hyn yn dweud wrthym fod y Cyngor wedi gwella ei berfformiad a lleihau'r amser mae pobl yn gorfod aros am asesiad. Mae'r Cyngor hefyd yn cyflawni'n dda iawn mewn perthynas â'r mesurau hyn o gymharu ag awdurdodau eraill Cymru. Er enghraifft, mae 67 y cant o fesurau perfformiad gofal cymdeithasol i oedolion yn well na chyfartaledd Cymru, a'r Cyngor sy'n cyflawni orau trwy Gymru mewn tri o'r naw mesur perfformiad.

69 Mae'r Cyngor yn ceisio cyflwyno canlyniadau da i bobl agored i niwed trwy hyrwyddo safonau gofal gwell ac ansawdd bywyd gwell.

70 Yn ein hadroddiad i'r Cyngor y llynedd, nodwyd y dylai'r Cyngor gynnwys mesurau sy'n ystyried canlyniadau ei waith a sut yr oedd wedi helpu oedolion agored i niwed i fyw bywydau llawn, egnïol ac annibynnol. Ni adroddir ar rai mesurau priodol y gellir eu defnyddio, fel lleihau'r oedi wrth drosglwyddo gofal, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir, yn enwedig gan mai un o'r rhesymau dros oedi wrth drosglwyddo gofal yng Ngwent yw'r oedi wrth asesu neu wneud trefniadau gofal cymdeithasol[6]. Fodd bynnag, mae llawer o'r dangosyddion perfformiad a ddefnyddiwyd i fesur llwyddiant yn dal i ganolbwyntio ar fesur cynnydd yn hytrach na'r manteision i unigolion.

71 Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gyhoeddwyd fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal i oedolion, bu gwelliant ym mherfformiad y Cyngor o ran oedi wrth drosglwyddo gofal rhwng 2006-07 a 2010-11, gan ostwng o gyfradd o 14.53 fesul 1,000 ar gyfer rhai dros 75 oed i 8.95 y 1,000. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 5.76 fesul 1,000 yn 2010-11 ac mae'r Cyngor wedi'i nodi'n gyson fel un o'r cynghorau sy'n cyflawni waethaf yng Nghymru.

6 *Mynd i'r afael ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn y system gyfan - Cymuned iechyd a gofal cymdeithasol Gwent*, Swyddfa Archwilio Cymru, Tachwedd 2007.

## Mae'r Cyngor yn helpu pobl i ddatblygu ac mae wedi cynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghaerffili o ystyried nifer uchel y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

72 Mae Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn arolygu pa mor dda y mae cynghorau'n helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau. Mae Estyn yn arolygu gwasanaethau cyn-ysgol fel meithrinfeydd, ysgolion, colegau a gwasanaethau ieuenctid yn rheolaidd. Rydym yn cydweithio ag Estyn er mwyn asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn cefnogi'r gwasanaethau hyn er mwyn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu.

73 Wrth ystyried amrywiaeth o wybodaeth gyd-destunol, mae disgyblion Caerffili yn 2011 yn cyflawni'n dda yng Nghyfnodau Allweddol[7] un a dau. Er hynny, mae'r perfformiad yn is na'r cyfartaledd yng Nghyfnod Allweddol tri a gweddol ar y cyfan yng nghyfnod allweddol pedwar. Yn 2010, llwyddodd Caerffili i fodloni neu ragori ar ddau o dri meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yng Nghyfnodau Allweddol tri a phedwar, yn seiliedig ar y nifer sy'n hawlio prydau ysgol am ddim; roedd hyn yn well na'r blynyddoedd blaenorol. Nid yw gwybodaeth meincnodi 2011 ar gael hyd yma.

74 Wrth ystyried y wybodaeth gyd-destunol, mae'r lefelau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ychydig yn well na'r cyfartaledd. Bu gostyngiad bychan yn lefelau presenoldeb yn y sector cynradd yn 2011, ond mae'n parhau'n uwch na'r cyfartaledd. Yn gyffredinol, bu gwelliant mewn cyfraddau gwaharddiadau o'r ysgolion a nifer y diwrnodau a gollwyd gan ddisgyblion oherwydd gwaharddiadau tymor penodol yn 2010. Er hynny, mae nifer y diwrnodau a gollodd disgyblion oherwydd gwaharddiadau o chwe diwrnod neu fwy yn parhau'n uchel.

75 Fel y nodwyd yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd, mae gwella cyrhaeddiad addysgol yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Yn arbennig, hoffai'r Cyngor sicrhau bod pobl ifanc yn cael lefel dda o addysg ac yn meddu ar y sgiliau perthnasol er mwyn cael cyfle gwell a swyddi gwell mewn bywyd. Mae'n wynebu heriau gwirioneddol wrth geisio sicrhau gwelliannau yn y maes hwn, gyda llai o gyfleoedd gwaith, toriadau ariannol cenedlaethol a sgiliau rhifedd a llythrennedd gwael yn arwain at gyflawniad isel ac anweithgarwch economaidd.

76 Mae ein hadolygiad o gynnydd yn 2010-11 yn dangos bod y Cyngor wedi cyflawni ei raglen bolisi pwysig, sef datblygu a mabwysiadu strategaeth sgiliau cyfannol. Cafodd ei llunio yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, a'i chyflwyno i bob ysgol. Mae'r strategaeth sgiliau yn darparu dull Caerffili gyfan sy'n cynyddu'r amrywiaeth o gyfleoedd dysgu sydd ar gael i bobl ifanc ac yn cwmpasu ieithoedd, llythrennedd, rhifedd a thechnoleg. Yn ogystal â hyn, mae nifer y cyrsiau sydd ar gael i bobl ifanc wedi cynyddu o 27 i 30 ac mae'r Cyngor wedi cynyddu nifer yr hyfforddwyr dysgu, gyda 121 o hyfforddwyr ar gael erbyn diwedd 2010-11.

7 Cyfnod yn system addysg y wladwriaeth lle pennir y wybodaeth addysgol a ddisgwylir gan fyfyrwyr yw Cyfnod Allweddol. Mae'r union ddiffiniad o bob un o'r pedwar prif Gyfnod Allweddol yn ymwneud ag oedran, gan gwmpasu pob disgybl o oedran arbennig ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

77 Er bod hyn yn dangos cynnydd da o ran cyflwyno'r amrywiaeth o gamau gweithredu a bennwyd, mae perfformiad yn amrywio yn y mesurau llwyddiant allweddol a bennwyd gan y Cyngor. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol fel canran y disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy Lefel 2 mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg wedi gwella. Er hynny, cynyddodd nifer y bobl ifanc sy'n gadael ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) o bump y cant i chwech y cant. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn uwch na chyfartaledd Cymru o 5.4 y cant, ac yn bymthegfed o blith 22 cyngor. Yn y sefyllfa economaidd sydd ohoni, mae pob cyngor yn wynebu her wrth fynd i'r afael â'r bobl ifanc hyn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Wrth gymharu fodd bynnag, gwelwyd bod 17 o 22 o gynghorau Cymru wedi sicrhau gostyngiad neu wedi aros yn eu hunfan yn 2010 a Chaerffili oedd un o ddim ond pum cyngor a welodd gynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Y Cyngor hefyd oedd â'r drydedd gyfran uchaf yng Nghymru o bobl ifanc 16-24 a oedd yn hawlio budd-daliadau ar ddiwedd 2010.

## Mae perfformiad y Cyngor o ran helpu i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol yn dda ar y cyfan. Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â gwendidau o ran sut mae lleihau carbon yn cael ei fesur

**Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflwyno prosiectau sy'n helpu pobl i gael gwaith yn erbyn cefndir o gynnydd mewn diweithdra a therfyn y cynlluniau creu swyddi a hyfforddiant cenedlaethol**

78 Mae cynyddu cyflogaeth yn waith pwysig a phriodol i'r Cyngor ganolbwyntio arno yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Yn 2010-11, rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth i gyflwyno dwy raglen waith eang yn canolbwyntio ar gefnogi busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig, a helpu i gynyddu cyfleoedd gwaith trwy raglenni sy'n helpu i ddarparu'r sgiliau ac addysg angenrheidiol i oedolion a phobl ifanc gael gwaith.

79 Wrth i ni adolygu'r cynnydd yn erbyn Amcan Gwella'r Cyngor, gwelsom fod y Cyngor wedi cyflwyno camau gweithredu eang ac wedi gwneud cynnydd yn y rhan fwyaf o feysydd. Er enghraifft, cynyddodd dyraniadau grant i fusnesau bach a chanolig trwy'r Gronfa Fuddsoddi Leol a chynyddodd y nifer sy'n cymryd rhan ym mentrau *Genesis II* [8] a *Pontydd i Waith*[9].

80 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn wynebu her sylweddol wrth geisio cynyddu cyflogaeth a diogelu swyddi cyfredol. Mae nifer o raglenni ariannu cenedlaethol yn dod i ben, ac nid yw'n glir a ddaw mentrau newydd yn eu lle ac os felly, beth fydd effaith hyn. Yn *Adroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd, gwelsom fod y Cyngor yn canolbwyntio'n benodol ar grwpiau sy'n cael trafferth gael gwaith fel unig rieni a phobl dros 50 oed. Dyma'r grwpiau a fanteisiodd ar raglenni cenedlaethol a gwaith lleol y Cyngor a ddaeth i ben ym mis Medi 2011, ac nid yw'n glir pa gymorth a fydd ar gael iddynt yn y dyfodol.

8 Prosiect sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag cael gwaith.
9 Mae *Pontydd i Waith* yn fenter ar y cyd rhwng chwe chyngor y De-ddwyrain sy'n rhoi cyfle i bobl ddiwaith a chwmnïau ailhyfforddi neu wella sgiliau.

81 Mae diweithdra yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac roedd 137,000 yn ddi-waith ym mis Tachwedd 2011[10]. Bu cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n ddi-waith ac yn hawlio'r Lwfans Ceiswyr Gwaith yng Nghaerffili hefyd, sef 5,728 ddiwedd Tachwedd 2011 - cynnydd o 602 ers Tachwedd 2010 a'r bedwaredd gyfradd uchaf yng Nghymru. Mae diweithdra yng Nghaerffili yn parhau'n dipyn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU. Er bod rhai pobl wedi elwa ar ambell weithgarwch, mae'r dirwasgiad yn golygu bod mwy o bobl Caerffili'n ddi-waith ac yn hawlio'r Lwfans Ceiswyr Gwaith eleni o gymharu â'r llynedd, a bod y Cyngor yn wynebu llawer mwy o her na'r rhan fwyaf o gynghorau Cymru wrth gyflwyno gwelliannau.

**Mae gan y Cyngor ddull strategol da o reoli carbon a sicrhau cynaliadwyedd; ond nid yw'n glir a yw ôl troed carbon y Cyngor wedi lleihau'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf**

82 Nod tymor hir y Cyngor yw darparu gwasanaethau gwell i drigolion wrth ddefnyddio llai o adnoddau'r sefydliad. I'r perwyl hwn, mae cysylltiad uniongyrchol ac annatod rhwng cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd y busnes. Fe wnaethom adolygu'r cynnydd o ran cyflwyno'r camau a gynlluniwyd ar gyfer 2010-11 ac asesu a oedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni'i flaenoriaethau gwella yn y maes.

83 Mae'r Cyngor wedi sefydlu sawl strategaeth a dogfen bolisi sy'n nodi ei ddyheadau ynglŷn â rheoli carbon a chynaliadwyedd. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu nifer o grwpiau i reoli ei weithgareddau a chydgysylltu'r broses o weithredu camau allweddol, gan gynnwys Panel Cynghori ar Gynaliadwyedd a Grŵp Rheoli Carbon a Dŵr.

84 Rydym yn credu bod hwn yn ddull cadarn o reoli'r broses o gyflwyno'r maes gwaith pwysig hwn. Gallai'r Cyngor adolygu cyfrifoldebau'r grwpiau unigol ac ehangu eu cylch gorchwyl i gynnwys meysydd allweddol eraill nad ydynt yn rhan o'r Strategaeth Rheoli Carbon ar hyn o bryd, fel caffael, cludo a gwastraff. O gofio bod gwastraff ac ailgylchu yn rhan hanfodol o reoli carbon a chynaliadwyedd, mae'r Cyngor yn colli cyfle i gysylltu'r elfennau hyn gyda'i gilydd ar hyn o bryd.

85 Fodd bynnag, er gwaetha'r cam hynod gadarnhaol hwn, nid yw bob amser yn glir a yw'r gweithgareddau hyn yn arwain at welliannau gwirioneddol o ran cyflawni targedau'r Cyngor. Mae'r ffigurau perfformiad presennol ar reoli carbon yn awgrymu bod perfformiad yn gwaethygu. Er enghraifft:

- Cafwyd cwymp sylweddol ym mherfformiad y Cyngor mewn perthynas â'r gostyngiad canrannol mewn allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$) yn y stoc adeiladau annomestig. Bu gostyngiad o 33 y cant yn 2009-10 a chynnydd o 14.17 y cant yn 2010-11. Mae'r Cyngor wedi nodi bod y ffigurau hyn yn anghywir ac mae wrthi'n gweithio'n ddiwyd i ddeall sut y cyflawnodd mewn gwirionedd yn y maes hwn.
- Cafwyd gostyngiad yn yr arbedion allyriadau carbon cyfartalog blynyddol (tunelli o $CO_2$) yn adeiladau'r Cyngor o 317 i 301 rhwng 2009-10 a 2010-11.

10 Ystadegau Economaidd Allweddol, StatsCymru, 16 Rhagfyr 2011.

Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y ffigurau hyn yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd ar gyfer y Dangosydd Strategol Cenedlaethol perthnasol a chyrff allanol eraill fel yn ei adroddiad Ymrwymiad Lleihau Carbon i Asiantaeth yr Amgylchedd.

86 Ar hyn o bryd, ychydig o fesurau sydd gan y Cyngor i ddangos beth yw effaith gadarnhaol ei waith a sut mae'n llwyddo i leihau'r allyriadau carbon yn effeithiol yn y rhan fwyaf o'i feysydd gwaith a gweithgareddau. Mae'r Cyngor yn adrodd ar berfformiad $CO_2$ ei adeiladau yn unig. Er bod y Cyngor yn adrodd ar ei berfformiad yn erbyn y Dangosydd Strategol Cenedlaethol ar $CO_2$ mewn adran ar wahân yn ei Adroddiad Perfformiad, nid yw'n defnyddio'r dangosydd hwn i fesur perfformiad wrth asesu ei berfformiad ei hun yn erbyn yr Amcan Gwella penodol ar leihau carbon. Mae hyn yn awgrymu bod anghysondeb yn y ffordd mae'r Cyngor yn defnyddio'r data sydd ar gael i reoli ac asesu ei berfformiad yn y maes hwn.

**Mae'r achosion o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd wedi gostwng**

87 Mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch cymunedol ledled Caerffili. Gan weithio mewn partneriaeth â llu o randdeiliaid drwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, cyflwynodd y Cyngor gyfres o flaenoriaethau i ganolbwyntio arnynt yn 2010-11. Maent yn cynnwys datblygu rhwydwaith o wirfoddolwyr cymunedol fel Pwyllgorau Gwarchod Cymdogaeth i fynd i'r afael â materion niwsans amgylcheddol, a defnyddio Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol i batrolio ac ymateb i bryderon dinasyddion. Mae meysydd eraill yn cynnwys gwella'r modd mae partneriaid yn cydweithio a hybu dulliau cyfathrebu mwy effeithiol â'r cyhoedd ar faterion diogelwch cymunedol.

88 Wrth adolygu'r perfformiad o gymharu ag Amcan Gwella'r Cyngor, gwelsom fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan o ran cyflawni'i flaenoriaethau diogelwch cymunedol. Llwyddodd i fwrw mlaen â llawer o'r camau a bennwyd ar gyfer 2010-11, ac mae'r gwasanaethau wedi nodi pa feysydd sydd angen eu gwella yn y dyfodol. Mae perfformiad Caerffili o ran troseddu, datrys achosion ac ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd yn dangos gwelliant yn 2010-11. Er enghraifft:

- bu gostyngiad o 11.5 y cant mewn troseddau a hysbyswyd rhwng 2009-10 a 2010-11;
- cynyddodd y cyfraddau datrys troseddau i 32.8 y cant o gymharu â 29.9 y cant ar gyfer yr un cyfnod y llynedd; a
- mae achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol 30.2 y cant yn is o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

89 Mae gan y Cyngor her sylweddol o'i flaen yn y dyfodol gydag effaith y toriadau ariannol, cyfyngiadau ar adnoddau a'r heriau o weithio mewn partneriaeth â blaenoriaethau sy'n newid. Bydd angen rheoli'r rhain yn ofalus wrth ddatblygu gwaith yn y dyfodol.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu dull manwl o werthuso gwelliannau mewn gwasanaethau ond nid yw bob amser yn cyflwyno darlun cytbwys o'i berfformiad

**Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn fanwl ond nid bob amser yn glir**

90 Mae adolygiad y Cyngor o'i berfformiad wrth gyflawni'r Amcanion Gwella a bennwyd ganddo ar gyfer 2010-11 wedi'i gyhoeddi mewn dwy ddogfen wahanol. Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd y Cyngor ei flaengynllun sy'n cyflwyno'r Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12. Cafodd ei ategu gan ddogfen arall sy'n rhoi manylion am y cynnydd o gymharu ag Amcanion Gwella 2010-11. Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Gwella sy'n cynnwys manylion am berfformiad o gymharu ag 13 o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r wyth Amcan Gwella a gyflwynwyd yn 2010-11, er nad yw mor fanwl â chyhoeddiad Mehefin 2011. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy ddogfen yn cynnwys hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2010-11 (yr Adroddiad Perfformiad).

91 Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor ar gael yn y Gymraeg ac mewn fformatau eraill ar gais, a gellir ei lawrlwytho o wefan y Cyngor. Cafodd datganiad cyhoeddus o Amcanion Gwella'r Cyngor ei gynnwys yn rhifyn Hydref 2011 o'i gylchgrawn cymunedol *Newsline*. Yn ogystal â hynny, cyhoeddwyd crynodeb cyhoeddus 14 tudalen ar wahân, sy'n rhoi crynodeb o gynnydd y Cyngor yn cyflawni yn erbyn ei 13 o flaenoriaethau corfforaethol. Er ei fod yn cyfeirio at yr Amcanion Gwella, nid yw'n cynnwys dadansoddiad manwl yn crynhoi'r cynnydd a wnaed o ran eu cyflawni. Mae'r fersiynau llawn a chryno o'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys adran i ddinasyddion sydd eisiau rhagor o wybodaeth neu sy'n dymuno cymryd rhan yn y dyfodol.

92 O gofio'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n rhesymol disgwyl i gynghorau nodi'u perfformiad ariannol yn eu Hadroddiad Perfformiad, gan ddweud faint maent yn ei wario mewn meysydd gwasanaeth, ac a ydynt yn gwneud arbedion fel y cynlluniwyd a chynnwys cymariaethau costau. Byddai cyfeirio at effaith y pwysau yn sgil cynnydd mewn galw a llai o arian allanol hefyd yn helpu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd.

93 Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys crynodeb ariannol gyda manylion am ffynonellau ariannu a gwariant mewn meysydd gwasanaeth. Ceir dolen gyswllt i gael rhagor o wybodaeth hefyd. Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnig gwerth am arian, ac ni orwariodd unrhyw gyfarwyddiaeth yn ystod 2010-11. Mae'r Adroddiad yn esbonio sut mae'r Cyngor yn arbed arian yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ac yn nodi ei fod wedi llwyddo i sicrhau rhywfaint o arbedion. Mae adrannau ar flaenoriaethau penodol yn sôn am lai o arian allanol a phwysau o ran galw (a gostyngiadau), a cheir rhywfaint o wybodaeth am arbedion a buddsoddiadau; yn enwedig o arian grant. Gellid gwella'r adran hon yn Adroddiad y Cyngor trwy gynnwys gwybodaeth gymharol am gostau a fyddai hefyd yn helpu'r Cyngor i nodi cyfleoedd i arbed arian.

94 Mae'r ffaith fod y Cyngor yn cyhoeddi nifer o ddogfennau gwahanol er mwyn rhoi gwybodaeth am ei berfformiad yn golygu eu bod yn anodd i ddinasyddion eu darllen a deall. Er enghraifft, ni adroddir am berfformiad rhai o feysydd Amcanion Gwella 2010-11 yn niweddariad 2011-12 ac nid ydym yn sicr beth yw'r rheswm am hyn - ai oherwydd bod y blaenoriaethau ar gyfer

gwella wedi newid; heb eu cyflawni neu heb eu mesur. Mae cyhoeddiadau mis Mehefin a mis Hydref yn gorgyffwrdd â'i gilydd, sy'n golygu bod rhywfaint o ailadrodd mewn rhai meysydd a gwahaniaethau mewn meysydd eraill. Dylid cysoni'r dogfennau hyn yn well neu eu cyfuno er mwyn sicrhau cysondeb rhyngddynt ac osgoi ailadrodd.

95 Serch hynny, mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys sylwadau defnyddiol ar berfformiad y Cyngor ac yn cyflawni'i ddyletswyddau statudol i adrodd am ei berfformiad. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes datganiad gwerthuso cyffredinol i gyd-fynd â phob Amcan Gwella yn gwneud yr Adroddiad llai effeithiol a chytbwys yn gyffredinol. Nid yw rhai o'r ffynonellau tystiolaeth, fel casgliadau a chanfyddiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn cael eu defnyddio bob amser. Yn ogystal, nid yw'r Cyngor bob amser yn nodi'n glir a yw wedi cymryd camau neu fodloni ei dargedau ei hun ar gyfer gwella. Er enghraifft, y camau gweithredu a'r targedau mewn perthynas â'r Amcan Gwella ar ymgysylltu â dinasyddion a gwrando arnynt.

96 Dyma'r tro cyntaf y gofynnwyd i gynghorau Cymru gyflwyno adroddiad am eu perfformiad o safbwynt Amcanion Gwella, a disgwylir y bydd rhai cyfleoedd i ddysgu a gwella'r modd o wneud hyn. Ar y cyfan, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyhoeddi gwybodaeth am welliannau. Er hynny, dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn rhoi mwy o sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth roi adroddiad cliriach am ei berfformiad, yn benodol wrth ddangos effaith ei waith ac adrodd yn llawn ar gynnydd o ran cyflawni ei amcanion a'i fwriadau.

**Mae'r Cyngor yn defnyddio pob math o wybodaeth wahanol wrth hunanasesu ei berfformiad ac mae'n gwneud rhagor o waith ar ddatblygu mesurau canlyniadau, er bod angen iddo wneud defnydd gwell o dargedau a chymariaethau**

97 Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda os yw am ddarparu gwasanaethau da a'u gwella hyd yn oed. Mae systemau'r Cyngor ar gyfer adrodd am berfformiad wedi hen ennill eu plwyf ac mae ei Adroddiad Perfformiad yn cymharu'r perfformiad â'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol. Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn adrodd yn gryno ar a yw perfformiad rhwng 2009-10 a 2010-11 wedi gwella, wedi aros yr un fath, neu wedi dirywio. Yn ôl y wybodaeth hon, llwyddodd y Cyngor i sicrhau perfformiad gwell mewn 17 o'r 24 dangosyddion yn 2010-11, tra cafwyd dirywiad mewn chwe dangosydd. Nid oedd hi'n bosibl cymharu un dangosydd.

98 Mae'r Cyngor yn gosod targedau bob blwyddyn ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol. Mae gosod targedau yn gallu bod yn ffordd ddefnyddiol o herio sefydliad neu faes gwasanaeth penodol i gyflawni'n well. Trwy adolygu'r perfformiad a gyflawnwyd o gymharu â'r targedau, gellir gweld a yw'n cyflawni'r amcanion ai peidio. Nid yw'r Cyngor, fodd bynnag, yn adrodd am ei berfformiad yn erbyn ei dargedau. Mae hyn yn golygu nad yw'r dinasyddion yn gallu barnu a yw'r Cyngor yn cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd. Hefyd, nid yw'r

Cyngor yn rhestru ei berfformiad o blith 22 o gynghorau Cymru nac yn dangos i ba chwartel y mae'n perthyn. Er hynny, mae'n cyflwyno crynodeb graff o'r newidiadau mewn perfformiad dros amser.

99 Rydym yn cydnabod bod y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth gymharol yn fewnol a bod datblygu system Ffynnon yn helpu i reoli data'n effeithiol. Ond gan nad yw'r wybodaeth hon a gwybodaeth arall ar gael i'w dinasyddion bob amser, nid ydynt yn gallu barnu drostynt eu hunain pa mor dda mae'r Cyngor yn eu gwasanaethu o gymharu â chynghorau eraill Cymru neu dros amser.

100 O ran yr Amcanion Gwella unigol, mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys rhywfaint o ddata tueddiadau os yw ar gael, a pheth gwybodaeth gymharol er mai defnydd cyfyngedig a wneir o'r rhain. Yn aml, mae'r dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi gwelliannau yn seiliedig ar fesurau lleol priodol, ac felly gwneir cymariaethau cyfyngedig â chynghorau neu gyrff cyhoeddus eraill. Weithiau, mae'r Cyngor wedi newid y mesurau a ddefnyddir i adrodd am berfformiad ac felly nid oes cyfeiriad at wybodaeth mewn perthynas â mesuriadau blaenorol.

101 Mae'r Adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth am bob un o'i Amcanion Gwella ac yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol am adnoddau a'r galw. Nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn dibynnu ar ddangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol yn unig. Mae hefyd yn defnyddio data o ffynonellau amrywiol eraill, er enghraifft casgliadau dadansoddiadau o anghenion ac mae i'w ganmol am hyn. Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor hefyd yn nodi'n glir pam y dewisodd yr amcanion unigol; yn nodi pa bartneriaid sy'n gweithio gyda'r Cyngor i gyflawni'r Amcanion Gwell; yn darparu gwybodaeth gyd-destunol fel gwariant cyllidebau ac yn cyflwyno sylwadau byr ar beth ddywedodd dinasyddion a phartneriaid wrth y Cyngor.

102 Er hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r dangosyddion perfformiad cyfredol yn rhoi cyfle cyson iddo fesur ei effaith ar ddinasyddion. Mae wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran datblygu mesurau a systemau ategol newydd ers iddo bennu'r Amcanion Gwella cyntaf yn hydref 2010. Er bod hyn yn gyfle effeithiol i'r Cyngor fesur effaith ei waith o ran cyflwyno canlyniadau i ddinasyddion, nid ydynt yn fesurau cynhwysfawr bob amser, ac nid ydynt yn cyflwyno darlun cyflawn o welliant ym mhob achos. Mae'r Cyngor yn parhau i fireinio ei wybodaeth am berfformiad a bydd gwaith pellach ar fireinio mesurau canlyniadau yn ei alluogi i farnu ac adrodd yn well am ei berfformiad.

**Nid yw bob amser yn glir a lwyddodd y Cyngor i wneud yr hyn yr oedd am ei wneud**

103 Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys crynodeb o'r cynnydd o ran cyflawni amrywiaeth o weithgareddau yn erbyn yr Amcanion Gwella. Er hynny, nid yw'r wybodaeth am y cynnydd ac ansawdd y mesurau perfformiad a ddefnyddiwyd bob amser yn nodi'n glir a phendant a yw'r Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Gwella unigol. Fel y nodwyd uchod yn ein hasesiad o'r cynnydd yn erbyn Amcanion Gwella unigol, mae'r Adroddiad Perfformiad yn cyfeirio at y gwaith a gyflawnodd y Cyngor yn 2010-11. Ond, nid yw'n datgan yn glir a gyflawnwyd y gwaith a fwriadwyd nac yn

dangos sut mae ei ymdrechion wedi gwella perfformiad neu sicrhau gwelliannau. Trwy fethu â chyflwyno adroddiad clir ar yr holl gamau gweithredu a osododd iddo'i hun yn 2010-11 ac a lwyddodd i'w cyflawni ai peidio, nid yw'r Cyngor yn cyflwyno darlun llawn o'i berfformiad. Hefyd, mae crynodebau amrywiol o berfformiad yn dueddol o ddisgrifio gwaith cyfredol 2011-12 yn erbyn Amcanion Gwella yn hytrach na nodi'r hyn a gyflawnwyd yn 2010-11.

**Mae'r Cyngor yn defnyddio ei bwyllgorau craffu i herio perfformiad yn effeithiol, ond gellir gwella peth o'r wybodaeth a ddarperir i aelodau**

104 Mae gan bwyllgorau craffu rôl bwysig yn y gwaith o reoli perfformiad a chefnogi gweithgarwch gwella. Maent yn gweithio fel eiriolwyr cymunedol sy'n cyflwyno syniadau ac anghenion y gymuned er mwyn helpu'r Cyngor i ddatblygu polisi, ac yn craffu ar benderfyniadau'r Cabinet, perfformiad y Cyngor a sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion. O fewn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae rôl y pwyllgorau craffu wedi'i nodi'n glir fel elfen allweddol o brosesau gwella'r cyngor.

105 Mae'r Cyngor yn cyflwyno adroddiad cyson bob chwe mis i'w bwyllgorau craffu am y cynnydd diweddaraf ar gyflawni Amcanion Gwella a pherfformiad ehangach ei wasanaethau. Mae'r adroddiadau sylfaenol hyn yn defnyddio system sgorio coch, oren a gwyrdd er mwy cynnig cipolwg syml ar gynnydd o ran cyflawni gwelliannau dan bob Amcan Gwella. Maent wedi'u cyflwyno mewn fformat sylfaenol ac yn cynnwys cyfres o ganlyniadau sy'n sail i'r Amcan Gwella; asesiad risg; y cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu; a'r perfformiad yn erbyn mesurau.

106 Mae hon yn system dda ar gyfer rheoli ac olrhain perfformiad gan ei fod yn rhoi cyfle i'r aelodau adolygu'r cynnydd a chael sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud yr hyn y dywedodd y byddai'n ei wneud. Gellir cryfhau'r broses er mwyn helpu i graffu'n fwy effeithiol ar berfformiad:

- Nid yw'r asesiadau risg yn nodi a yw'r risgiau yn newid.
- Ni chynhelir dadansoddiad fesul chwarter/hanner blwyddyn er mwyn i'r aelodau allu olrhain cynnydd dros amser.
- Mae'r dadansoddiad o ddangosyddion perfformiad yn gyfyngedig oherwydd nid yw'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol, perfformiad y prif sefydliadau na chyfartaledd neu berfformiad cynghorau Cymru dros amser.
- Nid yw'n darparu data perfformiad yn aml gan nad yw'r systemau'n cefnogi asesiadau effeithiol yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, nid oes data perfformiad ar gael ar gyfer 12 o'r 21 o ddangosyddion perfformiad a ddefnyddiwyd i fonitro'r broses o gyflawni'r Amcan Gwella *Asiantaethau a phartneriaid yn cydweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc*. Nid yw'r aelodau, felly, yn gallu olrhain perfformiad a chymryd camau gweithredu i unioni'r mater gan fod gwybodaeth ar goll.

107 Er hynny, mae aelodau o'r pwyllgorau craffu wedi sylwi ar y diffygion yn y modd mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad, ac maent yn ceisio sicrhau bod y Cyngor yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn y dyfodol. Wrth i ni adolygu'r maes Craffu, gwelsom fod yr aelodau yn herio'r gwasanaethau yn effeithiol ar y cyfan. Roedd yr aelodau'n sylwi ar bynciau pwysig ac yn gofyn cwestiynau perthnasol am dangyflawni wrth gyflawni targedau'r cynllun gweithredu, ac yn gofyn am sicrwydd ar elfennau allweddol o berfformiad y Cyngor. Gofynnwyd cwestiynau da ar faterion cyllideb, staff a darpariaeth weithredol er mwyn deall perfformiad y Cyngor ar hyn o bryd a'r heriau sy'n ei wynebu wrth gyflwyno'i Amcanion Gwella. Roedd modd herio'r swyddogion hefyd, ac roeddynt yn cydnabod pa mor bwysig yw craffu er mwyn cefnogi gwelliannau.

**Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei Gytundebau Canlyniadau**

108 Mae Cytundebau Canlyniadau rhwng Llywodraeth Cymru a chynghorau unigol yn nodi sut y bydd y naill a'r llall yn gweithio i wella canlyniadau i bobl leol, yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol y Llywodraeth. Nid yw Cytundebau Canlyniadau yn cymryd lle'r trefniadau rheoli perfformiad a chynllunio gwasanaethau sylfaenol sydd eisoes ar waith. Yn hytrach, maent yn darparu fframwaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau a phwyslais ar gynllunio gwasanaeth, cynllunio adnoddau a rheoli perfformiad. Wrth adolygu cais y Cyngor i Lywodraeth Cymru, gwelsom fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth gyflawni'r rhan fwyaf o dargedau'i Gytundebau Canlyniadau er bod ein hasesiad ni o berfformiad yn wahanol i un y Cyngor.

109 Mae ein hasesiad o dystiolaeth y Cyngor sy'n sail i'w Gytundebau Canlyniadau yn dangos ei fod wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r rhan fwyaf o'r cytundebau. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd fel sail i hunanasesiad y Cyngor yn gadarn ar y cyfan, er bod angen gwella rhai meysydd o hyd, yn enwedig mesurau i farnu a yw pobl yn well eu byd. Ni chafodd camau a gynlluniwyd eu cyflawni mewn rhai rhaglenni, neu ni ddangoswyd eu heffaith ar ganlyniadau yn ddigon clir.

110 Archwiliwyd systemau'r Cyngor ar gyfer rheoli ac adrodd am ei ddangosyddion perfformiad allweddol yn 2010. Y mae gofyn i bob cyngor adrodd am berfformiad yn erbyn Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ac roedd y rhain yn gywir i raddau helaeth.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol, a chyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau, parciau cenedlaethol a'r awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi'r adroddiad hwn fel rhan o'i ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni'i ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 ac sy'n dweud a ydyw, yn sgil ei archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, yn credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Mae cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yn enghreifftiau o awdurdodau gwella.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'i ddyletswyddau. Mae'r Asesiad Gwella wedi'i lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw'r awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn mynegi barn ar hanes yr awdurdod o sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiadau arbennig (dan adran 21) ac mewn perthynas â hyn bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, ac efallai yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu'r gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol ystyried y wybodaeth a rennir gan y rheoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

## Y Cyngor

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwario tua £527 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn cyfateb i tua £3,064 y trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £47 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

£898 y flwyddyn oedd y dreth gyngor band D gyfartalog yng Nghaerffili yn 2010-11. Nid yw hyn wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn, felly £898 yw'r ffigur ar gyfer 2011-12 hefyd. Mae 81.7 y cant o dai Caerffili yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 73 aelod etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 32 Plaid Cymru
- 32 Llafur
- 9 Annibynnol

Anthony O'Sullivan yw Prif Weithredwr Caerffili.

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cynnwys:

- Nigel Barnett, Dirprwy Brif Weithredwr
- Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Sandra Aspinall, Cyfarwyddwr Addysg

## Gwybodaeth arall

Jeff Cuthbert o'r Blaid Lafur yw Aelod Cynulliad Caerffili. Mae rhai dinasyddion hefyd yn byw yn etholaeth Islwyn lle mae Gwyn Price yn Aelod Cynulliad dros y Blaid Lafur ac yn etholaeth Merthyr Tudful a Rhymni lle mae Huw Lewis yn Aelod Cynulliad dros y Blaid Lafur. Dyma Aelodau Cynulliad Rhanbarthol y De-ddwyrain:

- Mohammad Asghar, Plaid Geidwadol Cymru
- Jocelyn Davies, Plaid Cymru
- William Graham, Plaid Geidwadol Cymru
- Lindsay Whittle, Plaid Cymru

Dyma Aelodau Seneddol Caerffili:

- Wayne David, Caerffili
- Dai Havard, Merthyr Tudful a Rhymni
- Christopher Evans, Islwyn

Maent i gyd yn cynrychioli'r Blaid Lafur.

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Cyngor ei hun, www.caerffili.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Nhŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG.

# Atodiad 3
# Cyfrifon a defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o adnoddau

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad archwilydd canlynol (ar 30 Tachwedd 2011).

Y Cynghorydd Allan Pritchard
Yr Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

Annwyl Gynghorydd Pritchard

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012 a bydd rhai o'r materion yr arferwyd adrodd arnynt yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi manteisio ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig yn y llythyr byr hwn sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Mae'r llythyr yn ddogfen annibynnol, ond bydd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili â'r gofynion adrodd sy'n ymwneud â'i berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau, ond bydd yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'r trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon; a
- chyflwyno tystysgrif i gadarnhau fy mod wedi cwblhau archwilio'r cyfrifon.

Ar 28 Medi 2011, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o drafodion a sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Roedd ychydig o faterion yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon a hysbysais yr aelodau amdanynt yn adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol.

O 2010/11, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Roedd y safonau newydd hyn yn golygu llawer o waith ychwanegol i staff cyllid y Cyngor. Er gwaethaf y pwysau ychwanegol hwn, paratowyd y cyfrifon erbyn y dyddiad statudol a bennwyd.

Nodwyd y materion canlynol ynglŷn â'r cyfrifon:

- Mae'r Cod Cyfrifon yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod nodi gwerth teg Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar ar ei fantolen a sicrhau bod prisiadau'n cael eu cynnal bob pum mlynedd o leiaf, ond yn fwy aml os yw'r gwerthoedd teg wedi codi neu ostwng yn sylweddol. Mae'r Awdurdod yn nodi gwerth ei eiddo, ei beiriannau a'i gyfarpar trwy gyflwyno rhaglen dreigl o ailbrisiadau dros gyfnod o bum mlynedd. Dylai'r Awdurdod hefyd ystyried a all gwerth teg asedau nad ydynt yn rhan o'r rhaglen am flwyddyn benodol fod yn sylweddol wahanol i'r gwerth yn y llyfr. O ganlyniad, gofynnwyd i'r Awdurdod gynnal rhaglen waith bellach mewn perthynas â chydbwysedd asedau perthnasol unigol nad oeddent wedi'u hailbrisio yn ystod y flwyddyn i bennu a ddylid gwneud unrhyw addasiadau pellach i werth yr asedau yn y cyfrifon. Addaswyd y cyfrifon i adlewyrchu symudiadau sylweddol yng ngwerthoedd asedau yn dilyn yr ymarfer;
- Buom yn trafod gyda'r Cyngor a ddylid darparu ar gyfer cyfraniadau pensiwn ar elfen ôl-daliad setliadau cyflog cyfartal. Nid oedd y ddarpariaeth bosibl ofynnol yn berthnasol felly ni wnaeth y Cyngor gynnwys darpariaeth o'r fath yn y cyfrifon;
- Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Cafodd rhai gwahaniaethau bach yn y methodolegau a ddefnyddir gan y Cyngor ac yn y gwaith o gyflwyno eitemau eu nodi a'u haddasu yn y cyfrifon terfynol;
- Cafodd y cyfrifon eu haddasu ar gyfer eitemau a nodwyd a oedd yn gyfalaf mewn natur ond nad oeddent wedi'u cyfalafu gan eu bod wedi'i hariannu o gyllidebau refeniw a oedd ar gael.

Roedd fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar waith archwilio'r cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Bydd prif ganfyddiadau'r gwaith hwn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 28 Medi 2011.

Bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010/2011 £9,000 yn uwch na'r hyn a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol oherwydd y gwaith ychwanegol a gyflawnwyd mewn perthynas â phrisiadau asedau a'r profion ychwanegol ar drafodion cyfalaf/refeniw.

Lynn Hine (PricewaterhouseCoopers LLP)

Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

30 Tachwedd 2011

Mae gan etholwyr lleol ac eraill hawl i weld cyfrifon y Cyngor. Ar ôl i'r Cyngor gwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, tua mis Mehefin neu Orffennaf fel arfer, mae'n rhaid iddo hysbysu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; a gallwch hefyd archwilio'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n ymwneud â'r cyfrifon am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt fod ar gael. Gallwch holi'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y maent yn ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch ddweud wrth yr archwilydd os ydych yn credu bod rhywbeth yn anghywir gyda'r cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynllunio i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Bob blwyddyn, mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'Amcanion Gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Amcanion Gwella yn ei Gynllun Gwella sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn http://www.caerffili.gov.uk/site.aspx?s=cDi9MNKWJbN+5B7bCr0EoA

| **Amcanion gwella Caerffili ar gyfer 2010-11** | **Amcanion gwella Caerffili ar gyfer 2011-12** |
|---|---|
| Gwella'r ffordd y mae'n ymgysylltu a dinasyddion a gwrando ar farn cwsmeriaid am wasanaethau | Gwella'r ffordd y mae'n ymgysylltu a dinasyddion a gwrando ar farn cwsmeriaid am wasanaethau |
| Sicrhau bod asiantaethau a phartneriaid yn cydweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc | Sicrhau bod asiantaethau a phartneriaid yn cydweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc |
| Lleihau'r ôl-troed carbon a gwella cynaliadwyedd | Lleihau'r ôl-troed carbon a gweithredu mewn ffordd fwy cynaliadwy |
| Cynnal amrywiaeth o gyfleoedd gwaith i'r trigolion | Cynyddu'r amrywiaeth o gyfleoedd gwaith i'r trigolion |
| Gwella lefel sgiliau plant a phobl ifanc | Gwella lefel sgiliau plant a phobl ifanc |
| Hyrwyddo manteision ffordd o fyw iach a gweithgar | Codi ymwybyddiaeth o fanteision ffordd o fyw iach a gweithgar |
| Sicrhau bod oedolion sydd yn y system gofal cymdeithasol yn gallu byw bywyd llawn, gweithgar ac annibynnol | Sicrhau bod yr holl oedolion sydd yn y system gofalcymdeithasol yn gallu byw bywyd llawn, gweithgar ac annibynnol |
| Gofalu bod Caerffili yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo | Gofalu bod Caerffili yn lle mwy diogel i fyw ynddo |

## Hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o'i berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad, yr Adroddiad Perfformiad, ar wefan y Cyngor yn:
http://www.caerffili.gov.uk/site.aspx?s=cDi9MNKWJbN+5B7bCr0EoA

# Atodiad 5
# Cynnydd y Cyngor yn erbyn cynigion blaenorol ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 1 Gorffen a chyhoeddi amcanion gwella, sy'n fersiwn drafft ar hyn o bryd, a diweddaru'r Cynllun Gwella Corfforaethol i nodi'n glir weledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol. | Cyhoeddodd y Cyngor ei Amcanion Gwella cyntaf yn ôl y gofyn ac mae wedi'u diweddaru ar gyfer 2011. |
| 2 Gwella systemau i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol drwy:<br>• sicrhau bod Cynlluniau Gwella Gwasanaethau (SIPs) yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau gwella corfforaethol y Cyngor; a<br>• sicrhau bod targedau CAMPUS yn cael eu pennu sy'n canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol. | Mae'r Cyngor wedi cyflwyno canllawiau newydd i wasanaethau ar gwblhau SIPs i fynd i'r afael â gwendidau parhaus yn y cysylltiadau rhwng SIPs ac Amcanion Gwella. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson.<br>Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer rheoli perfformiad ac mae gwaith yn parhau i wella mesurau a dulliau pennu targedau.<br>Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn. |
| 3 Gwella'r broses o reoli perfformiad drwy:<br>• lunio ystod eang o ddangosyddion i fesur gwelliant sy'n canolbwyntio'n glir ar reoli gwasanaethau gweithredol;<br>• gwerthuso perfformiad i nodi'r meysydd a'r cyfleoedd ar gyfer gwella; a<br>• sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau angenrheidiol i sicrhau bod eu staff yn atebol, a mynd i'r afael yn effeithiol â meysydd perfformiad gwael. | Mae'r Cyngor yn defnyddio system reoli perfformiad Cymru gyfan Ffynnon i gefnogi'r gwaith o fonitro perfformiad ac adrodd yn erbyn amrywiaeth o ddangosyddion. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cyfres briodol o ddangosyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a dangosyddion sy'n cyd-fynd yn well â gweithgarwch gweithredol. Bydd datblygu dangosyddion gwell yn hwyluso dulliau craffu a gwerthuso perfformiad mwy cadarn. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn archwilio cynigion i gryfhau trefniadau er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu a nodi cyfleoedd i wella perfformiad gwasanaeth.<br>Rydym yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, yn enwedig mewn perthynas â'i Amcanion Gwella, ac rydym wedi nodi ein canfyddiadau yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* 2012.<br>Mae ein gwaith i archwilio sut mae'r Cyngor yn rheoli ei staff yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar hyn o bryd a chaiff ei gynnwys yn ein Hasesiad Corfforaethol nesaf. |

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| 4 | Sicrhau bod cynlluniau a gwasanaethau yn gyson er mwyn cefnogi'r rhaglen wella drwy:<br>• gytuno ar ddewisiadau a datblygu cynlluniau manwl i fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir yn y gyllideb;<br>• cynnal ymarferiad cynllunio'r gweithlu traws-sirol i bennu anghenion staffio yn y dyfodol, gan gynnwys cydweithio ag asiantaethau eraill y sector cyhoeddus;<br>• gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd partneriaethau i sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol;<br>• cryfhau ei drefniadau rheoli risg yn sgil yr holl heriau sy'n dod i'r amlwg;<br>• datblygu a mabwysiadu strategaeth rheoli asedau i ddiwallu anghenion y Cyngor yn y dyfodol;<br>• gwella cysondeb o ran sut mae'r cynlluniau'n adlewyrchu'r modd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion ac yn ymateb i'w hanghenion nhw;<br>• cwblhau ei adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol a phenderfynu sut i'w hymgorffori ledled y sefydliad; a<br>• chreu systemau rheoli Adnoddau Dynol cadarn i gefnogi'r newidiadau diwylliannol sy'n digwydd o fewn y Cyngor. | Mae'r Cyngor wedi ystyried dewisiadau a datblygu cynlluniau ariannol tymor canolig fel rhan o gylch pennu cyllideb 2011-12.<br><br>Nid oes gan y Cyngor strategaeth ar gyfer y gweithlu yn ei lle eto. Mae ein gwaith i archwilio sut mae'r Cyngor yn rheoli ei staff yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar hyn o bryd a chaiff ei gynnwys yn ein Hasesiad Corfforaethol nesaf.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cryfhau'r dull o lywodraethu trefniadau cydweithio. Byddwn yn cyflawni gwaith i archwilio cynnydd yn y maes hwn ac yn adrodd arno yn ein Hasesiad Corfforaethol nesaf.<br><br>Mae ein gwaith i archwilio dulliau Rheoli Asedau wedi'i ohirio ar gais y Cyngor a byddwn yn adrodd arno yn dilyn adolygiad mewnol y Cyngor.<br><br>Rydym wedi archwilio sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r gymuned ac wedi cyflwyno ein casgliad yn yr Adroddiad hwn. |
| 5 | Hyfforddi a helpu'r Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod ganddo drefniadau i ofalu fod ei swyddogaethau'n gwella'n barhaus. | Caiff ein gwaith i archwilio cynnydd yn y maes hwn ei adrodd yn ein Hasesiad Corfforaethol nesaf. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 6 Cyhoeddi ei amcanion gwella yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. | Mae'r Cyngor wedi bodloni'r gofynion statudol, er ein bod wedi gweithredu rhai meysydd lle dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau. |
| 7 Ymgynghori â'i amrywiaeth lawn o randdeiliaid ynglŷn â'r Amcanion Gwella a rhoi cyfleoedd priodol i ddinasyddion ddylanwadu a llywio blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol. | Mae gwelliant wedi bod yn y gweithgareddau ymgynghori mewn perthynas â sawl un o'r Amcanion Gwella unigol.<br>Mae hyn yn cynnwys ymgynghori trwy'r Panel Safbwynt sydd wedi galluogi'r Cyngor i gryfhau cyfreithlondeb ei flaenoriaethau. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi digwydd ym mhob achos ac mae yna gyfleoedd i wella cyfreithlondeb sawl un o'r Amcanion Gwella trwy ymgysylltu ac ymgynghori'n fwy effeithiol â rhanddeiliaid allweddol yn y dyfodol. |
| 8 Pennu mesurau priodol i farnu a gyflawnwyd yr amcanion gwella sy'n canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn perfformio nawr, beth yw ei dargedau, sut mae'n cymharu ag eraill, y gost am gyflawni'r amcanion a sut y bydd yn dangos a yw pobl Caerffili ar eu hennill yn y diwedd. | Mae'r Cyngor wedi adolygu ei fesurau llwyddiant ar gyfer yr Amcanion Gwella unigol ac wedi cynnwys gwybodaeth am y canlyniadau y bwriedir eu sicrhau i'r Cyngor. Y prif newid ers 2010-11 yw'r ffaith bod gwybodaeth am berfformiad yn cael ei darparu mewn fframwaith Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau sy'n amlinellu beth mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Mae hyn yn darparu datganiad eang o ble y gall pobl ddisgwyl gweld gwelliannau ond nid yw bob amser yn cynnwys datganiadau clir ynglŷn â faint o welliant y bwriedir ei wneud. Mae systemau mesur llwyddiant yn tueddu i fod yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad cenedlaethol cyfredol nad ydynt bob amser yn addas, ac nid yw cysylltiadau rhyngddynt a meysydd i'w gwella bob amser yn glir. Ychydig iawn o waith sydd wedi'i wneud ar gost mesurau darparu. Rydym wedi adrodd ar gynnydd yn y maes hwn yn *Adroddiad Gwella Blynyddo*l 2012. |
| 9 Pennu safonau gofynnol ar gyfer cyflawni safonau ym mhob maes gwasanaeth. | Ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â phennu safonau gwasanaeth gofynnol. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 10 Gosod blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu, yng nghyd-destun llai o adnoddau. | Mae cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor wedi nodi nad oes yna doriadau a fydd yn cael effaith andwyol ar gyflawni'r Amcanion Gwella. Mewn tri o'r wyth, mae'r Cyngor yn sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi'r gwaith o'u cyflawni. |
| 11 Sicrhau bod canlyniadau gwaith cynllunio ariannol yn y tymor canolig yn nodi ac yn pennu'r adnoddau sydd eu hangen a'u bod ar gael i gyflawni'r amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi adolygu a gosod blaenoriaethau clir ar gyfer ei Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12. Mae'r gwaith o ystyried gofynion adnoddau wedi'i gwblhau fel rhan o'r ymarfer hwn. Rydym yn adrodd ar gadernid cynlluniau'r Cyngor i fynd i'r afael â'r her ariannol yn *Adroddiad Gwella Blynyddol* 2012. |
| 12 Mae amcanion gwella a chynllun gwella blynyddol *Amcanion Gwella 2011/12* y Cyngor yn bodloni gofynion allweddol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Fodd bynnag, er mwyn dilyn y canllawiau statudol yn well, rydym yn cynnig y dylai'r Cyngor:<br>• gynnwys datganiad cyffredinol yn y cynllun blynyddol sy'n edrych tua'r dyfodol i nodi sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol gyffredinol i sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau gwelliant ledled ei swyddogaethau; a<br>• chynnwys gwybodaeth am weithgareddau gwella mewn meysydd nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan Amcanion Gwella, gan gynnwys arbedion a dadfuddsoddiadau arfaethedig, os ydynt yn effeithio ar wasanaethau i ddinasyddion. | Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei flaengynllun blynyddol nesaf yn y gwanwyn 2012. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| 13 Dylai'r Cyngor:<br>• Ddiffinio cynllun sy'n rhoi manylion yr ymarfer ymgysylltu cyfan, gan gynnwys cyn ac ar ôl gweithredu. Dylid cynnwys costau ymgysylltu a'r adnoddau angenrheidiol.<br>• Rheoli disgwyliadau'r cyhoedd ynglŷn â chanlyniadau'r ymgynghoriad a darparu adborth priodol ar resymau dros benderfyniadau a sut mae prosesau ymgysylltu wedi cyfrannu at y canlyniadau.<br>• Cynnal gwerthusiad o weithgareddau ymgysylltu i ddangos tryloywder ac atebolrwydd canlyniadau a gyflawnir. | Byddwn yn monitro cynnydd y Cyngor ac yn adrodd arno yn ein Hasesiad Corfforaethol nesaf. |
| 14 Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol ar waith wrth greu gwasanaethau integredig a chydweithredu, sy'n amodol ar werthusiad rheolaidd o'u heffaith. | Byddwn yn parhau i fonitro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod partneriaethau a threfniadau cydweithredu'n cael eu llywodraethu'n effeithiol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk